Y CRIW
Mentrus

Cynradd Uwch

Gweithgaredd 2:
Â phwy y byddwn yn siarad?

Amcan dysgu

Datblygu sgiliau ymchwilio a chynllunio.

Nodweddion Entrepreneuriaeth

Cysylltiadau

- Cyflwyno
- Cyfathrebu

Trefniadaeth

- Cynllunio
- Ymchwil – deall yr amgylchedd

Gweithgareddau dysgu

Trafodwch y syniadau am fenter a gafodd eu creu yng Ngweithgaredd 1.

Gofynnwch y cwestiwn *"Pwy allwn ni eu holi i gael dysgu mwy am ein syniad menter?"*

Gofynnwch i'r disgyblion a yw eu rhieni yn rhedeg busnes – beth maent yn wneud?

Trafodwch y posibilrwydd o wahodd cynrychiolydd o fenter/busnes lleol i ymweld â'r ysgol, neu drefnu cyfweliad rhithwir ar-lein, neu drefnu ymweliad dosbarth i fusnes lleol.*

Mewn grwpiau, mae'r disgyblion yn ymchwilio busnesau lleol sy'n berthnasol i'w syniad prosiect.

Gofynnwch i bob grŵp gyflwyno eu canfyddiadau i'r dosbarth cyn i'r dosbarth ddod i benderfyniad ynglŷn â pha fusnes lleol i wahodd.

Mae'r disgyblion yn ysgrifennu llythyron gwahodd a/neu yn gwneud galwad ffôn i'r busnes a ddewisir i drefnu ymweliad real neu ymweliad rhithwir gan ddefnyddio porth ar-lein.

Mae'r disgyblion yn defnyddio canfyddiadau eu hymchwil i baratoi cwestiynau i'w gofyn i'r ymwelydd.

** Efallai y gall Swyddogion Rhanbarthol Syniadau Mawr Cymru gynorthwyo i gysylltu gyda busnes lleol. Adnodd 2 – mae'r daflen 'Sut i ymwneud â busnesau lleol' hefyd ar gael fel ffynhonnell rhagor o wybodaeth.*

Gweithgaredd 2:
Â phwy y byddwn yn siarad?

Cynradd Uwch

Canlyniad dysgu

Bydd y disgyblion yn datblygu sgiliau ymchwilio a chynllunio syml.

Adnoddau sydd eu hangen

- Map o'r ardal leol
- Cyfeiriaduron lleol
- Papurau newydd
- TGCh
- Adnodd 2 - Sut i ymwneud â busnesau lleol

Cwricwlwm ar gyfer Cymru

Meysydd Dysgu a Phrofiad

Iechyd a lles

- Mae ein penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau a bywydau eraill.

Dyniaethau

- Mae dinasyddion hunanymwybodol gwybodus yn ymgysylltu â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth ac yn gallu cymryd camau moesol ystyriol.

Sgiliau Trawsgwricwlaidd

1. Llythrennedd

Siarad

- Diben
- Ymddiddan cydweithredol
- Cwestiynu

Ysgrifennu

- Cynllunio a threfnu ar gyfer gwahanol ddibenion, cynulleidfaoedd a chyd-destun

Gwrando

- Gwrando am ystyr
- Gwrando er mwyn deall
- Gwrando fel rhan o ymddiddan cydweithredol

Darllen

- Deall, ymateb a dadansoddi

2. Cymhwysedd Digidol

- Rhyngweithio a chydweithredu

Llywodraeth Cymru
Welsh Government